

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y 13eg o Ragfyr 2016.

- 1. Presennol:** Barry Bracegirdle (Cadair), Nerys Williams, Justin Davies – Penygroes; Gwyndaf Roberts – Llanllyfni; Sharon Wynne Jones, Harry Wyn Owen – Talysarn; Peter Simpson – Cyngor Gwynedd (eitem 2) / **Ymddiheuriadau:** OP Huws, Hefina Roberts – Llanllyfni; Ffion Jones – Nantlle; Iwan Lloyd Williams – Penygroes. Justin wedi ymddiheuro y byddai yn gorfod gadael ar ole item 2. Cydymdeimlwyd gyda Nerys ar ei phrofedigaeth o golli ei mam.
- 2. Taflen Baw Cwn.** Croesawyd Peter Simpson i'r cyfarfod. Dywedodd fod y daflen faw cwn bellach yn barod i'w dosbarthu, ac y byddai arwyddion dros dro yn cael eu defnyddio i gyd-fynd a'r daflen yn y manau mwyaf trafferthus (hyn yn cael ei dreialu ym Mhenygroes). Cytunwyd ar amserlen i weithredu. Cytunwyd fod 5000 o bamffledi yn cael eu argraffu a'u dosbarthu ar ddechrau'r flwyddyn newydd. Bydd Peter yn rhoi datganiad yn y wasg, a gofyn wrth ysgolion lleol ymuno yn yr ymgyrch. Nerys am gysylltu efo ysgol Penygroes, Harry am gysylltu efo ysgol Talysarn. Gofynwyd am leoliadau buddiol ar gyfer gosod yr arwyddion dros dro – Tyrpeg Talysarn; Bro Silyn Talysarn; Lon Ysgol Llanllyfni; Trim Trac Talysarn. Trafodwyd sut i ddosbarthu'r bamffled – awgrymwyd rhoi linc ar wefan y Cyngor Cymuned. Angen gwirio lleoliadau bin. Postyn newydd wedi ei osod ar gyfer bin newydd wrth ysgol Talysarn. Cadarnhau dyddiad lansio yng nghyfarfod Ionawr y Cyngor Cymuned.
*Materion eraill a roddwyd i Peter i adrodd yn ol i Gyngor Gwynedd – brigau, mwd a dail ar Lon Eifion yn creu risg o achosi pyncjar; rhannwyd manylion am gwyn coed yn y cae tu ol i Trem y Wyddfa yn peri difrod i eiddo; holi pryd mae'r wal yn Nasareth yn cael ei thrwsio. Diolchwyd Peter am ddod i'r cyfarfod. Peter a Justin yn gadael y cyfarfod.
- 3. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Wal Nasareth – Gwyndaf Roberts; Trydan Clwb Pel Droes – Sharon Jones; CCTV Trem y Wyddfa – Barry Bracegirdle.
- 4. Cywirdeb cofnodion cyfarfod Mis Tachwedd.** Gwyndaf yn cynnig fod y cofnodion yn gywir, a Harry yn eilio. Pawb yn derbyn.
- 5. Materion yn codi o'r cyn gofnodion.** OP Huws wedi cael damwain hegr ac yn yr ysbytu ar hyn o bryd.
- 6. Cyfarfodydd is-bwyllgor / cydweithio.** Barry a Justin wedi mynychu cyfarfod cydweithio. Bwriad cymharu cytundebau'r 3 Cyngor efo'i gilydd. Efallai cael asiant i weithredu – fel Antur Nantlle er enghraifft.
- 7. Cynllunio C16/1445/22/LL – Llys Ifor, Ffordd Pont Lloc, Nebo – diwygio amod o ganiatad cynllunio er mwyn lleoli carafan dros dro hyd at Rhagfyr 2017 ar y tir yn ystod y gwaith adeiladu – dim sylwadau; C16/1395/22/LL – Estyniad un llawr yng nghefn 15 Ffordd Nantlle, Talysarn - derbyn.**
- 8. Cais am llythyr cefnogaeth – CCTV Trem yr Wyddfa.** Gan Grwp Preswylwyr a Thenantiaid Trem yr Wyddfa – adnewyddu'r system CCTV sydd bellach dros 10 mlynedd oed. Penderfynwyd gyrru llythyr o gefnogaeth.
- 9. Cais am llythyr cefnogaeth – Antur Nantlle – Prosiect HWB Gymunedol Dyffryn Nantlle.** Darllenwyd y llythyr yn gofyn am gefnogaeth i brosiect arfaethedig adeilad banc yr HSBC ym Mhenygroes. Penderfynwyd rhoi llythyr y gefnogaeth, ond gwahodd Antur Nantlle i roi cyflwyniad i'r Cyngor Cymuned fis Chwefror.
- 10. Gohebiaeth.**
Cyngor Gwynedd: Ymatebion: - Bolard St Rhedyw, arwyddion Llanllyfni – Cyngor Gwynedd wedi gweithredu, Wal Nasareth – holi Cyngor Gwynedd pryd mae'r gwaith yn cael ei gwblhau. Pryder o'r perygl. Trem y Wyddfa – y tyllau wedi eu trwsio, Pont Boncen Eithin – y bont wedi ei thrwsio. Newid yn nhrefniant ad-daliad costau cynnal llwybrau cyhoeddus – er gwybodaeth; 'Bod yn Gynghorydd' – er gwybodaeth; Biniau Halen – llythyr yn hysbysu fod y pris o ail-lenwi'r biniau wedi gostwng.
Arall: Un Llais – Gyrrwyd ar ebost i'r Cynghorwyr er gwybodaeth. Dim materion yn codi. Cofnodion cyfarfod pwyllgor ardal; Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol; Gweithdy Rhyngweithio ac Arwain Gyda Hyder; Rhif Roi Gwybod Cyfoeth Naturiol; Cyfarfod 'Betsi Cadwaladr Stakeholder Reference Group'; Digwyddiad Planning Aid Cymru; Cartrefi Iach i Bawb; Bil Gwarediadau Tirlenwi Cymru; Cyfleoedd Rhwydweithio ar Gyfer Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol; Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru; Deud Eich Deud Plismona; Llywodraeth Cymru'n Paratoi'n Dda i Ymgyrdd a Chyfrifoldebau Datganoli

Cyllidol; Archwiliadau Allanol; Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru; Cyhoddiadau – Non Guaranteed Hours; Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru; Ymgynghoriad Ynglyn a Newid Enw'r Cynulliad Cenedlaethol.

Nora Jones – dysgwyr Cymraeg – llythyr yn holi beth yw cynlluniau'r Cyngor Cymuned parthed dysgwyr Cymraeg – dim cynlluniau ar hyn o bryd, ond wedi cyfrannu yn lleol; Llywodraeth Cymru – Adroddiad Datblygu Cynaliadwy Ffordd Osgoi Caernarfon a Bontnewydd – er gwybodaeth; Hunaniaith – digwyddiadau – er bwybodaeth; Arolygon Etholiadol – Polisi ac Arfer; Julie Holland – Quarry Llanllyfni. Diweddarau Hefina am y datblygiadau diweddaraf; Holiadur Ty'n y Weirglodd – diweddariad – gofyn am adroddiad erbyn Ionawr.

11. * **Materion Pentrefi. Penygroes:** Ysgol Dyffryn Nantlle. Bachgen wedi syrthio a brifo wrth chwarae rygbi ar gae chwarae'r ysgol. Paramedics wedi cymryd tri chwarter awr I fynd a'r bachgen ar draws tri cae I fynd ag ef I'r ambiwlans. Hyn yn achosi pryder ychwanegol ar sail iechyd a diogelwch o gael ffens o amgylch tir yr ysgol heb fynedfa frys iddi. Tasa giat yn y ffens, byddai'r gwasanaethau brys wedi gallu mynd allan o'r cae yn ddi-oed a di-drafferth. Honiad fod plant wedi cael trafferthion cael gafael ar athro i'w hysbysu am y digwyddiad ac I ddod at y bachgen; Cartrefi Cymunedol Gwynedd – fflatau Bryn Llwyn – y llwybr wedi ei ail-wneud ers tua blwyddyn yn ol, a thrigolion efo 'disability scooters' methu mynd I fyny'r allt oherwydd fod mw ar y ffordd yn y gwaelod. Wedi bod yn cwyno ers blwyddyn. Trem y Wyddfa – pryderon am dyfiant o gae Cyngor Gwynedd tu ol i Rhif 1 hyd at Rhif 34 Trem yr Wyddfa yn achosi problemau I drigolion sydd wedi prynu ac yn rhentu tai. Cysylltu efo Cartrefi Cymunedol I ddod I weld, ac I Gyngor Gwynedd fynychu dyfarfod safle gan fod y tyfiant yn achosi difrod I'w eiddo nhw. **Llanllyfni** Weiran wedi plygu o flaen yr eglwys. Yr eglwys yw perchenog y wal. Penderfynwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn trefnu fod y ffens yn cael ei thynhau er mwyn ei gwneud yn fwy diogel. Penderfynwyd gofyn I Ifan ac Idris gario mlaen efo'r gwaith o godi coed bychain o fynwent yr Eglwys (pris £380). Diolchwyd Barry am gynrychioli'r Cyngor a gosod torch ar y gof golofn ar Sul y Cofio. Mynychodd pedwar aelod o'r Cyngor Cymuned eleni. Deallai'r Cyngor fod Iolo (Roberts ac Owen) wedi bod yn edrych ar ol y gof golofn ac Twm wedi ei glanhau cyn Sul y Cofio.

12. **Ystafelloedd Newid Talysarn – Trydan.** Cais am ganiatad y Cyngor Cymuned I newid y math o fesurydd trydan yn yr ystafelloedd newid. Y Cyngor yn canitau.

13. **Llwybrau a Mynwentydd.** Y bedd a oedd wedi suddo wedi ei ail-wneud yn Gorphwysfa; Cysylltu eto ynglyn a thrio prynu cae wrth Gorphwysfa; Cais I drafod beddi cadw I unigoion o'r tu allan I'r gymuned yng nghyfarfod is-bwyllgor nesaf y Cyngor.

14. **Materion yn ymwed a'r heddlu.** Dim.

15. **Materion ariannol.** Ffon/Rhyngwyd Clerc £25; Derbynebaw Clerc; Idris Lloyd Jones £9000+. Ad-daliad TAW £3370.33. Caniatwyd talu'r anfonebau.

16. **Ceisiadau am arian:** Croes Goch Brydeinig. Trafod Chwefror.

17. ***Taenlen i'w chymeradwyo a Ffurflen Fonitro Cyllid.** Archwiliwyd y dogfennau, ac fe'u cadarnhawyd.